**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2018 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Daniels | Cyngor Gwynedd |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

K Finch (Trysorydd): G Owens (Dirprwy Glerc); H MacArthur ac S Morris (Prif Swyddogion Cynorthwyol); S Forrest (Pennaeth Gwasanaeth Cyfrifyddiaeth a'r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); J Brown (Rheolwr Cyllid); M Jones (Swyddfa Archwilio Cymru); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| I D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 29 IONAWR 2018

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2018 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 MIFID II – nodwyd nad oedd llythyr wedi cael ei anfon oherwydd ein bod wedi cael cyngor ar reoli'r trysorlys na fyddai unrhyw fantais yn dod o anfon llythyr gan nad oes effaith ariannol na niweidiol ar yr ATAGC o ganlyniad i ddyfodiad MIFID II. Cadarnhawyd y canlynol:

- Roedd gan ATAGC fynediad o hyd at arian y farchnad ac ni fu unrhyw newid negyddol yn y cyfraddau llog
- Bydd rhai broceriaid yn delio'n uniongyrchol ag ATAGC ac mae rhai cytundebau eraill yn cael eu broceru drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Nid yw'r ffioedd i Gonwy am gyngor Rheoli'r Trysorlys wedi newid o ganlyniad i'r ffaith fod Conwy wedi cael statws Proffesiynol.

3.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

4 CYNLLUN ARCHWILIO 2018

4.1 Fe wnaeth Mark Jones o Swyddfa Archwilio gyflwyno cynllun archwilio 2018 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r aelodau, yn ogystal â thystysgrif yr Archwilydd yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi gweithredu ddigon yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

4.2 Roedd y cynllun archwilio yn rhestru'r gwaith y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod, sef:

- gwaith ar gyfrifon ariannol, gan gynnwys adroddiad ar archwilio datganiadau ariannol a barn ar ddatganiadau ariannol
- gwaith perfformiad, gan gynnwys archwiliadau ar y cynllun gwella ac asesiad o berfformiad, ac asesiad risg a sicrwydd.

4.3 Nododd yr aelodau y bydd yr amserlen ar gyfer cyflwyno datganiadau ariannol yn newid yn 2019 felly bydd angen cyflwyno datganiadau ariannol 2018-19 i Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 31 Mai 2019 a bydd angen yr ardystiad archwilio erbyn 31 Gorffennaf 2019; roedd y swyddogion yn cytuno y byddai angen adolygu dyddiadau cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n gallu cymeradwyo'r datganiadau er mwyn cwrdd â'r amserlenni newydd.

4.4 Amcangyfrifir mai £60,274 fydd y ffi archwilio yn 2018-19; nododd yr aelodau fod y ffi yn 2017-18 wedi bod yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd, a hynny oherwydd y gwaith a oedd yn gysylltiedig ag archwilio datganiadau ariannol.

4.5 Roedd y dystysgrif a gyflwynwyd yn cadarnhau bod yr Archwilydd wedi archwilio tystysgrif cynllun gwella ATAGC, ac roedd yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 15(6) i (9) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 o ran paratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau.

4.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, ac adolygu dyddiadau'r cyfarfodydd sydd i ddod er mwyn gallu cymeradwyo cyfrifon yn unol â'r amserlen newydd.**

5 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

5.1 Cafodd y datganiad llywodraethu blynyddol ei gyflwyno i'r Aelodau gan y PSC MacArthur, cyn iddo gael ei gyhoeddi fel rhan o'r datganiad o gyfrifon a fydd yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub llawn ym mis Medi.

5.2 Roedd yr aelodau'n croesawu'r adroddiad ac yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu da. Nodwyd bod yr Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith, i safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion ac am hwyluso'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

5.3 Roedd y datganiad yn esbonio sut roedd yr Awdurdod wedi cymryd camau mewn perthynas â'r materion a ganfuwyd yn y Datganiad Rheolaeth Fewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (2016/17), a chafodd y cynnydd a wnaed yn 2017/18 ei gofnodi yn y datganiad. Dyma rai camau ar gyfer 2018/19:

- gweithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar drefniadau llywodraethu a chyllid yr ATAau yng Nghymru
- sicrhau bod Aelodaeth ATAGC yn cael eu hyfforddi a'u datblygu'n barhaus
- cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- penodi Clerc i'r Awdurdod/Swyddog Monitro
- adolygu cylch gorchwyl pob pwyllgor
- diweddaru'r Rheolau Sefydlog Contractau.

5.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18.**

6 PERFFORMIAD ARIANNOL 2017/18

6.1 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn rhoi gwybod i'r aelodau am berfformiad ariannol drafft heb ei archwilio yr Awdurdod yn 2017/18, a'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth i gario cronfeydd a glustnodwyd drosodd.

6.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad manwl i'r aelodau ar berfformiad ariannol yr Awdurdod ym mhob maes, sef: refeniw, incwm, cronfeydd wrth gefn, gwariant sy'n cael arian grant a chyllid cyfalaf.

6.3 Cafodd yr aelodau wybod am y gorwariant a'r tanwariant ar wahanol linellau o'r gyllideb. Nododd yr aelodau fod y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2017/18 yn cynnwys cyfraniad o £414k o'r cronfeydd wrth gefn ond oherwydd y tanwariannau ar nifer o benawdau'r gyllideb, roedd angen £93k i fantoli'r gyllideb, sef £321k yn llai na'r swm y cyllidebwyd ar ei gyfer; roedd hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd tanwariannau yn y costau cyllido Cyfalaf o achos llithriant yn y rhaglen Gyfalaf, a'r newid yn y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a gafodd ei gymeradwyo gan yr Aelodau. Fodd bynnag, nodwyd pwysau ar y gyllideb mewn nifer o feysydd, gan gynnwys costau staff, safleoedd a chyflenwadau.

6.4 O ran cronfeydd a glustnodwyd, cafodd yr aelodau eu hatgoffa am y contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau. Mae rhai o gostau'r prosiect wedi cael eu hariannu o'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18 yn hytrach na defnyddio'r gronfa a glustnodwyd yn benodol ar gyfer y prosiect. Ond gan fod y prosiect yn dal i fynd yn ei flaen, rhaid cael arian ar gael i ymorol am y risg y bydd costau ychwanegol posibl i'r Gwasanaeth, gan gynnwys peidio â dilyn yr amserlenni ar gyfer trosglwyddo. Ac er bod y system gyfredol yn cael ei hariannu'n rhannol gan grant gan Lywodraeth Cymru, nid oes sicrwydd y bydd hynny'n parhau. Felly, bydd y gronfa o £300k yn parhau i gael ei chario drosodd fel rhan o gronfeydd a glustnodwyd.

6.5 Clustnodwyd cronfa o £194k yn 2015/16 yn dilyn bwriad Llywodraeth Cymru i leihau'r grant ar gyfer diogelwch tân cymunedol. Cafodd y cyllid ar gyfer 2016/17 ei ostwng 50% ac er bod lefel y cyllid ar gyfer 2017/18 wedi cynyddu, disgwylir y bydd y grant yn gostwng yn y blynyddoedd i ddod; felly doeth fyddai i'r aelodau ystyried cario'r gronfa hon drosodd i ariannu gwariant yn y dyfodol. Yn gryno, dyma'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn:

| **Cynllun** | **Balans Agoriadol 01-Ebrill-17 £** | **Symudiad 2017/18 $** | **Balans Terfynol cyfnod 31-Mawrth-18 £** |
|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn | | | |
| Cronfa Gyffredinol wrth gefn | (2,149,991) | 93,083 | (2,056,908) |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau ar sail Afiechyd | (100,000) | 55,500 | (44,500) |
| Cronfeydd a Glustnodwyd | (648,506) | 54,000 | (594,506) |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN a'r DARPARIAETHAU** | **(2,898,497)** | **202,583** | **(2,695,914)** |

6.6 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, ac yna **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi sefyllfa ariannol a pherfformiad yr Awdurdod;**
**(ii) argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ei fod yn cymeradwyo cario'r cronfeydd a glustnodwyd drosodd fel y disgrifir yn y paragraffau uchod.**

7 GWEITHGAREDDAU RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION ARIANNOL GWIRIONEDDOL 2017/18

7.1 Roedd yr adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth am weithgareddau trysorlys yr Awdurdod a'r dangosyddion darbodus gwirioneddol ar gyfer 2017/18, a'r gweithgarwch o ran benthyca a buddsoddi a sylwadau ar y cefndir economaidd yn y flwyddyn.

7.2 Mae gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn yr Awdurdod yn cael eu rheoleiddio gan amrywiaeth o godau proffesiynol, statudau a chanllawiau. Rhaid cyflwyno adroddiad i'r Aelodau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn nodi'r gweithgareddau yn y flwyddyn ac yn cymharu'r dangosyddion ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r dangosyddion gwirioneddol. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am weithgareddau o ran benthyciadau a buddsoddiadau ac mae'n rhoi sylwadau ar y cefndir economaidd yn y flwyddyn.

7.3 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad manwl ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r economi, y gweithgareddau buddsoddi a'r dangosyddion ariannol. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys. O ran buddsoddiadau a wnaed, trefn y flaenoriaeth oedd diogeledd, yna hylifedd, yna arenillion. Mae gwariant cyfalaf yr Awdurdod yn wariant darbodus, fforddiadwy a chynaliadwy, fel y gwelir yn ôl y dangosyddion perfformiad a gynhyrchwyd a'r costau cyllido cyfalaf.

7.4 Cyfeiriodd Ms Forrest at y risgiau yn 2018/19, ac esboniodd bod rhai camau'n cael eu cymryd er mwyn lliniaru'r risgiau cymaint â phosibl, sef:

- mae ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys (Arlingclose) yn monitro partïon i gontract yn ddyddiol er mwyn gwirio eu bod yn addas a beth yw'r tebygolrwydd y bydd y sefydliad yn methu;
- arian dros ben yn cael ei gadw mor isel â phosibl, a'r rhan fwyaf mewn cyfrifon galw at ddibenion llif arian;
- os bydd prinder Benthyciadau'r Farchnad, mae'r Awdurdod yn gallu newid i rai'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus
- cadw cronfa o £100k wrth gefn i ymorol am unrhyw gynnydd yn y cyfraddau llog (1% ar £10m).

7.5 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ei fod yn cymeradwyo Dangosyddion Darbodus gwirioneddol 2017-2018.**

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2017/18

8.1 Cyflwynodd Keith Williams yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb i'r aelodau o'r gwaith archwilio mewnol a wnaed yn 2017/18, ac yn gofyn am gymeradwyaeth i'r asesiad o anghenion archwilio mewnol a'r cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2018/19.

8.2 Nodwyd bod Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, ar sail y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'r wybodaeth sydd ganddo am y sefydliad a'i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

8.3 Aeth Mr Williams â'r Aelodaeth drwy'r adroddiad gan esbonio'r gwaith a gafodd ei wneud yn ystod 2017/18. Esboniodd Mr Williams mai 50 o'r 55 diwrnod a ddyrannwyd oedd wedi cael eu defnyddio yn 2017/18 felly roedd y pum diwrnod yn weddill wedi cael eu cario drosodd i 2018/19.

8.4 Nodwyd bod yr adolygiadau archwilio wedi dod i'r casgliad fod gan yr Awdurdod ddulliau llywodraethu a sicrwydd boddhaol ar fater systemau rheolaeth fewnol. Nid yw'r gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau sylweddol sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Roedd yr adroddiad yn darparu sicrwydd hefyd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y DU er mwyn i'r Awdurdod allu cael sicrwydd o'r farn hon.

8.5 Mae'r gwaith archwilio a gynlluniwyd ar gyfer 2018/19 yn cynnwys edrych ar gredydwyr, dyledwyr, gorsafoedd y system RDS (Ynys Môn a Gwynedd) a diogeledd seiber; bydd y swyddogion hefyd yn gwirio'r gwaith a wnaed o ganlyniad i'r argymhellion a wnaed yn yr archwiliadau yn 2017/18.

8.6 Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am reoli absenoldeb yn y Gwasanaeth er mwyn cael sicrwydd bod cymaint â phosibl yn cael ei wneud i gadw lefel absenoldeb salwch mor isel â phosibl.

8.7 **PENDERFYNWYD cadarnhau bod gan yr Awdurdod, am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017-31 Mawrth 2018, broses rheolaeth fewnol, rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol yn eu lle i reoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion.**

9 CYNLLUN GWELLA A LLESIANT 2019/20

9.1 Fe wnaeth y PSC Shân Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn crynhoi'r cynnydd a wnaed drwy Weithgor Cynllunio a Phanel Gweithredol yr Awdurdod o ran datblygu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2019/20.

9.2 Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am yr adroddiad, gan gadarnhau y dylai adroddiad mwy sylweddol gael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod llawn, gan gynnwys diffinio opsiwn B yn fwy manwl.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad wrth baratoi ar gyfer y cyfarfod o'r Awdurdod llawn 18 Mehefin 2018.**